# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Robert Francis-Davies | Adran Etholiadol: | Treforys |

| | |
|---|---|
| **Swydd Cyflog Uwch:** | Aelod y Cabinet - Menter, Datblygu ac Adfywio |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd yn Llyfrgell Treforys bob bore Sadwrn o 10am tan 12.00pm ar sail rota gyda'm cydweithwyr ward. Mae'r gymhorthfa hon wedi bod yn cael ei chynnal ers 1983 ac, yn ôl pob tebyg, dyma'r gymhorthfa hynaf yng Nghymru. Rydym wedi helpu etholwyr gyda llawer o faterion, megis rhoi cyngor ar dyllau yn y ffordd, priffyrdd, baw cŵn, clirio sbwriel, tipio anghyfreithlon ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rwyf wedi adrodd am y materion hyn i swyddogion y cyngor ac adrodd yn ôl lle y bo angen.

Euthum i gyfarfodydd Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT) rheolaidd a chyfarfodydd preswylwyr lleol.

Gyda'm cydweithwyr ward, rwyf wedi llunio a dosbarthu cylchlythyrau yn fy ward yn tynnu sylw at faterion lleol.

Rwyf wedi mynd am dro yn fy ward gyda chydweithwyr i edrych ar faterion i adrodd amdanynt i swyddogion eu hunioni.

Rwyf wedi cynrychioli preswylwyr gyda materion cynllunio a hefyd gyda chamddefnyddio cyfyngiadau parcio'n amlwg a gyrru'n rhy gyflym yn groes i'r Ddeddf Traffig Ffyrdd.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Penodiadau | 7 | / | 14 | 50 | % |
| Cabinet | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Grŵp Cynghori Datblygu | 5 | / | 6 | 83 | % |
| Y Cyngor | 17 | / | 18 | 94 | % |
| Panel Ariannu Allanol | 4 | / | 7 | 57 | % |
| **CYFFREDINOL** | **48** | **/** | **63** | 76 | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Roeddwn (ac rwyf o hyd) yn Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio. Mae fy mhrif gyfrifoldebau'n cynnwys: Dinas-ranbarth, Datblygiad Economaidd a Buddsoddi, Twristiaeth a Marchnata Cyrchfannau, Polisi Cynllunio/Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), Dysgu Oedolion/Gweithffyrdd, Canol y Ddinas, Treftadaeth, Dinas Wyddoniaeth, Prifysgolion, Dinas Greadigol, Canolfannau Maestrefol, Trwyddedu, y Fargen Ddinesig (cyswllt â Gwasanaethau'r Genhedlaeth Nesaf) ac elfennau arweiniol Abertawe Gynaliadwy.

**Cyrff Allanol 2015/2016:**

1. Cyfarwyddwr ar Ranbarth Gwella Busnes Abertawe Cyf. (BID);
2. Cyfarwyddwr ar Bwyllgor Rheoli Stadiwm Abertawe Cyf. (Stadiwm Liberty);
3. Cyfarwyddwr ar Fwrdd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf;
4. Cyfarwyddwr ar Fwrdd Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe Cyf;

Llywodraethwr Ysgol Gyfun Treforys.

## Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig

Rwyf wedi gweithio'n agos gyda'r Arweinydd ar gynllun Dewi Sant a chynllun y Ganolfan Ddinesig i ddod â'r ddwy ardal i'r farchnad trwy'r Strategaeth Gaffael Ewropeaidd. Arweiniodd hyn at benodi Rivington fel rheolwr datblygu cynllun Dewi Sant a Trebor fel rheolwyr datblygu cynllun y Ganolfan Ddinesig. Bydd y cynlluniau hyn yn golygu y caiff gwaith ailddatblygu sylweddol ei wneud yng nghanol y ddinas, gan gynnwys ardal manwerthu, bwyd a diod, sinema, arena dan do, acwariwm, gwestai a thai. Helpais wrth ddenu datblygiad gwerth £50m i Stryd Mariner, Abertawe.

## Adran 5: Dysgu a datblygu

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

04/05/2016 – Datblygu Economeg a Dichonoldeb Ariannol
11/02/2016 – Amddiffyn Plant (Hyfforddiant Llywodraethwyr)
15/07/2015 – Hyfforddiant Cyfryngau a Sgiliau Cyfweliad

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Gweithiais gyda'm cydweithwyr ward i gyflwyno gorymdaith y Nadolig yn Stryd Woodfield a chyflwyno goleuadau'r Nadolig ar gyfer cyfnod y Nadolig. Hefyd, cyflwynasom arddangosfeydd blodeuol a basgedi crog yng nghanol tref Treforys.

Eleni, heuwyd blodau gwyllt ar lawer o ymylon glaswellt a chylchfannau yn ardal Treforys.

Defnyddiasom ein harian amgylcheddol i osod llinellau melyn wrth rai cyffyrdd, cysgodfannau bws a mesurau gostegu traffig.

Gweithiais gyda chlybiau chwaraeon yn ardal Treforys i roi cyngor ariannol. Cyfarfûm â Heddlu De Cymru ynghylch sawl mater yn ardal Treforys.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch: £32,000 Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 03.06.2016 |